GIG

Sefydliad Cenedlaethol
dros Ragoriaeth Glinigol

# Defnyddio sytoleg yn seiliedig ar hylif ar gyfer sgrinio serfigol

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i'r cyhoedd

Mae'r arweiniad hwn yn disodli'r arweiniad arfarniad technoleg ar y pwnc hwn a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2000

Hydref 2003

**Defnyddio sytoleg yn seiliedig ar hylif ar gyfer sgrinio serfigoll**
**Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i'r cyhoedd**

**Dyddiad cyhoeddi:** Hydref 2003
**Dyddiad adolygiad:** Awst 2006

**I archebu copïau**
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch gyfeirnod N0299. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, cyfeirnod N0298. Mae arfarniad technegol NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno, *The use of liquid-based cytology for cervical screening*, ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir cael copïau hefyd o Linell Ymateb y GIG, rhif cyfeirnod N0296.


## Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk



ISBN: 1-84257-371-3

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol Hydref 2003
Gosodwyd y testun gan Icon Design, Eton
Argraffwyd gan Abba Litho Sales Limited, Llundain



© Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Medi 2003. Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Beth yw arweiniad NICE? | 4 |
| Beth yw sgrinio serfigol? | 5 |
| Beth yw sytoleg yn seiliedig ar hylif? | 6 |
| Beth mae NICE wedi ei argymell? | 7 |
| Beth y dylwn i ei wneud? | 7 |
| A fydd NICE yn adolygu ei arweiniad? | 7 |
| Gwybodaeth bellach | 8 |

## Beth yw arweiniad NICE?

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) yn rhan o'r GIG. Mae'n cynhyrchu arweiniad (argymhellion) ar ddefnyddio meddyginiaethau, offer meddygol, profion diagnostig a gweithdrefnau clinigol a llawfeddygol o fewn y GIG yng Nghymru a Lloegr.

I gynhyrchu'r arweiniad hwn, mae NICE yn edrych ar ba mor dda y mae'r feddyginiaeth, yr offer neu'r weithdrefn yn gweithio a hefyd ar ba mor dda y mae'n gweithio o'i gymharu â'r gost. Gelwir y broses hon yn arfarniad. Mae'r broses o arfarnu yn cynnwys gweithgynhyrchydd y feddyginiaeth neu'r offer y llunnir yr arweiniad ar ei gyfer, a'r sefydliadau sy'n cynrychioli'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y cleifion a'u gofalwyr y bydd yr arweiniad yn effeithio arnynt.

Gofynnwyd i NICE edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael ar ddefnyddio sytoleg yn seiliedig ar hylif, sy'n ffordd o brosesu samplau ar gyfer sgrinio serfigol. Gofynnwyd i NICE roi arweiniad a fyddai'n helpu'r GIG yng Nghymru a Lloegr i benderfynu pryd y dylai'r dechneg hon gael ei defnyddio.

# Beth yw sgrinio serfigol?

Mae sgrinio serfigol yn ffordd o archwilio merched yn rheolaidd am newidiadau yng nghelloedd ceg y groth. Ar hyn o bryd, defnyddir 'prawf taeniad' ar gyfer sgrinio serfigol. Caiff merched rhwng 20–64 oed brawf bob 3–5 mlynedd (yn dibynnu ar drefniadau lleol). (Yr enw cywir ar gyfer prawf taeniad safonol yw'r prawf Papanicolaou – a gaiff ei dalfyrru i brawf Pap fel arfer). Bydd meddyg teulu neu nyrs yn defnyddio ysbodol fach blastig i gasglu celloedd o geg croth y ferch. Yna, caiff y rhain eu hanfon i'r labordy lle y cânt eu rhoi ar haenwydryn microsgop a'u harchwilio o dan ficrosgop. Bydd y person sy'n edrych ar y celloedd yn chwilio am rai sy'n dangos arwyddion cynnar y gallent ddatblygu i fod yn celloedd canser (gelwir y rhain yn 'gelloedd cyn ganseraidd'). Ni fydd merch sydd â chelloedd cyn ganseraidd yn dangos unrhyw symptomau, a'r unig ffordd o ganfod y celloedd hyn yw drwy sgrinio serfigol.

Ar hyn o bryd, rhaid ailadrodd 1 o bob 10 prawf taeniad yn ddiweddarach. Y rheswm am hyn yw pan gaiff y sampl ei archwilio o dan ficrosgop, ni all y person sy'n ei archwilio weld a oes celloedd cyn ganseraidd ai peidio. Gallai hyn fod oherwydd fod problem gyda'r sampl taeniad neu gyda'r ffordd y paratowyd y sampl yn y labordy.

## Beth yw sytoleg yn seiliedig ar hylif?

Mae sytoleg yn seiliedig ar hylif yn ffordd newydd o gasglu a pharatoi samplau o gelloedd o geg croth y ferch. Cesglir samplau drwy ddefnyddio dyfais tebyg i frwsh yn hytrach nag ysbodol. Caiff pen y brwsh ei drochi neu ei dorri i mewn i gynhwysydd o hylif cadw a fydd yn amddiffyn y celloedd serfigol. Yna, caiff y cynhwysydd ei anfon i'r labordy. Yn y labordy, caiff y samplau eu cymysgu i roi cymysgedd gwastad o gelloedd serfigol, a chaiff unrhyw wastraff (megis gwaed neu fwcws) ei waredu. Yna, caiff haen denau o gelloedd serfigol ei rhoi ar haenwydryn microsgop a'i harchwilio.

Gallai'r dull hwn arwain at haenwydrau sydd o well ansawdd ac sy'n haws i'w darllen, gan leihau'r nifer o brofion y bydd angen eu hailadrodd.

## Beth mae NICE wedi ei argymell?

Mae NICE wedi argymell y dylai sytoleg yn seiliedig ar hylif gael ei ddefnyddio fel y brif ffordd o baratoi samplau o gelloedd serfigol yn y GIG yng Nghymru a Lloegr.

Nid yw NICE wedi argymell un cynnyrch yn hytrach nag un arall ar gyfer sytoleg yn seiliedig ar hylif gan ei fod yn dweud nad oes digon o wybodaeth ar hyn o bryd am fanteision ac anfanteision y cynnyrch gwahanol.

## Beth y dylwn i ei wneud?

Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'ch meddyg neu nyrs yn ystod eich apwyntiad nesaf ar gyfer sgrinio serfigol.

## A fydd NICE yn adolygu ei arweiniad?

Bydd. Adolygir yr arweiniad ym mis Gorffennaf 2006.

# Gwybodaeth bellach

Gellir cael mwy o wybodaeth am NICE a'r arweiniad llawn a ddosbarthwyd i'r GIG am sytoleg yn seiliedig ar hylif ar gyfer sgrinio serfigol ar wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir gwneud cais am yr arweiniad hefyd drwy ffonio Llinell Ymateb y GIG ar 0870 1555 455 a dyfynnu cyfeirnod N0296.

Os oes gennych fynediad i'r Rhyngrwyd, gallwch gael mwy o wybodaeth am ganser serfigol a sgrinio ar wefan Galw Iechyd Cymru (www.nhsdirect.wales.nhs.uk). Gallwch ffonio Galw Iechyd Cymru hefyd ar 0845 46 47.